

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWDYD YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AR NOS LUN 26AIN O HYDREF 2015 AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Stanley Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Elfed Williams, Hywel Davies, Jill Evans, Falmai Evans, Iwan Jones, Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch a'r Clerc.

1 YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Gwennan Hughes, Iona Edwards-Jones a Barri Evans.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Fedi 2015 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl am ymateb oddi wrth Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych am faterion ffyrdd y gymuned a gychwynnodd ar 4ydd o Orffennaf 2015.

Cytunodd y Cyngorydd Sir Joseph Welch i edrych i mewn i'r mater dros y Cyngor.

B. Derbyniwyd argraff arwyddion pentref "Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch - Gyrrwch yn ofalus - Please drive carefully" oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych. Penderfynwyd yr aelodau i archebu dau arwydd.

C. Penderfynwyd yr aelodau i fwrw ymlaen am archebu'r lloches bws i bentref Saron ar ôl derbyn y prisiau canlynol:-

1. Pen-y-bryn Joinery, Dinbych am baratoi'r gwaith llawr a chodi'r lloches bws - £2,786.00 cyn treth ar werth.

2. Queensbury Shelters an y lloches bws - £3,615.00 cyn treth ar werth.

D. Derbyniwyd adroddiad bod y bws plant ysgol yn dal i gasglu a disgyn yn y lleoliad anghywir. Penderfynwyd y Clerc hysbysu'r Cyngor Sir Ddinbych.

4. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £17,473.00.

B. Penderfynwyd talu anfoneb Cyngor Sir Ddinbych â dau gyfarfod y Cyngor - £35.00.

C. Derbyniwyd amcan bris oddi wrth Llefelys Rees am y gwaith sydd ei angen ar y wal Gof Golofn yn Llanrhaeadr - £760.00 cyn treth ar werth. Penderfynwyd derbyn yr amcan bris.

5. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Trosiad defnydd Eglwys St James, Prion i ddau lety gwyliau.

2. Adeiladu "Polytunnel" yn Rhewl Bach, Prion.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrth cais cynllunio am felin wynt yng Nghefn Yfed, Cyffylliog.

C. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Adran Cynllunio, Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn â thynnu amodau 4, 5 a 6 o'r cais cynllunio (Code for Sustainable Homes) Ty Newydd, Saron. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r cais cynllunio ar ôl derbyn yr eglurhad D. D. Derbyniwyd copi o'r Ymgynghoriad: Briffiau datblygu safle - Llanelwy - Canllawiau Cynllunio Atodol - Ynni Adnewyddadwy Cyngor Sir Ddinbych.

E. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd yr aelodau i'r Cyngorydd Sir Ddinbych Joseph Welch ofyn am gopi o'r cais cynllunio i'r datblygiad cyn Ysbyty Meddwl, Dinbych i'w thrafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. GOHEBIAETH.

- A. Derbyniwyd yr aelodau gwahoddiad Darren Millar, Aelod y Cynulliad dros Orllewin Clwyd, i fynychu'r cyfarfod nesaf y Cyngor.
- B. Derbyniwyd gwahoddiad oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych i fynychu noson arbennig ar gyfer Meiri, Cadeiryddion a Chlercod holl Gyngorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych yn Neuadd y Sir, Rhuthun mos Fercher 25ain o Dachwedd 2015 am 6.30 o'r gloch.
- C. Derbyniwyd gwybodaeth o'r Cyfarfod Blynyddol Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych ar ddydd Gwener 27ain o Dachwedd 2015 yn Ganolfan Gymunedol Eirianfa, Dinbych am 10.00 y bore.
- D. Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych am gyfarfod cyhoeddus yn Neuadd y Dre, Dinbych ar nos Fercher 11eh o Dachwedd 2015 am 7.00 o'r gloch i drafod Cronfa Addysg Bellach Sir Ddinbych ynghylch hen safle Ysgol Dinbych, Lon Ganol, Dinbych
- E. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

7. UNRHYW FATER ARALL.

- A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Sir Ddinbych ynghlŷn ar faterion canlynol:-
 - 1. Caniatâd i Siop-y-Pentre, Llanrhaeadr ail rhoi un "A Board" ar dir glas tu allan i'r Siop.
 - 2. Tynnu sylw bod gyrrwr bws plan Ysgol o Ddinbych i Brion yn mynd yn ôl i Rhuthun heibio Bryn Morfydd, Llanrhaeadr yn lle mynd yn ôl i Ddinbych.
 - 3. Mae'r ffyrdd canlynol eisiau eu trwsio ar unwaith: Rheng Fron, Prion a Ffordd Fawr, Saron a hefyd ffordd Drws-y-Buddel, Saron.
- B. Derbyniwyd gwybodaeth bod yna prinder llefydd claddu yn Fynwent Eglwys, Llanrhaeadr a phenderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gysylltu ag Un Llais Cymru am gymorth am y syniad o'r Cyngor Cymuned cymered y syniad o fynwent newydd drosodd yn y dyfodol.

8. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 30ain o Dachwedd 2015 yn Ysgol Bro Cinmeich, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.